



Llyfr Gwaith i Blant

I blant
7 i 11
oed






Pam wnaeth ein babi ni farw?

Weithiau, mae babanod yn cael eu geni'n rhy fuan am nad ydyn nhw wedi tyfu'n iawn ym mol mam.

Weithiau, 'dyw babanod ddim yn barod i gael eu geni ac maen nhw mor fach iawn, iawn ac felly'n methu byw.

Weithiau, mae eu corff wedi rhoi'r gorau i weithio. Dyw hi ddim yn bosib gwneud dim am hyn.


Dydyn nhw ddim yn gallu teimlo dim, dydyn nhw ddim mewn poen.



Does yna ddim byd y gallet ti fod wedi'i wneud.

Does yna ddim bai arnat ti.

Byddi'n cofio amdanyn nhw.



Sut wyt ti'n teimlo?

Pan fydd rhywun yn marw, fe allwn ni deimlo amryw o deimladau. Weithiau rydyn ni'n eu teimlo ar yr un pryd, ac weithiau dydyn ni ddim yn teimlo dim byd o gwbl. Fe allwn ni deimlo'n hapus ac yn drist ar yr un pryd.

Efallai y byddi di'n teimlo fel hyn:



Yn flin



Yn hapus



Yn poeni




Yn drist



Yn ddryslyd



Yn euog



Sut wyt ti'n teimlo heddiw?

Tynna lun neu ysgrifenna sut rwyt ti'n teimlo.








Ysgol

Pan fyddi di'n teimlo'n barod,
fe fyddi di'n mynd yn ôl i'r ysgol.

Fe allai di ddweud wrth dy athro a dy ffrindiau am y babi cyn
i ti fynd yn ôl, os byddai'n hynny'n gwneud i ti deimlo'n fwy
cyfforddus. Fe all oedolyn dy helpu di i siarad gyda nhw.

Fe all gwneud y pethau rwy't ti'n eu gwneud fel
arfer dy helpu di i deimlo'n well, fel clybiau ar ôl ysgol
neu hobïau. Mae'n iawn cael hwyl, hyd yn oed pan
fyddi di'n teimlo'n drist. Yn wir, fe allai dy helpu
di i wneud pethau rwy't ti'n eu hoffi.







Beth wyt ti'n hoffi
eu gwneud i gael hwyl?

Tynna lun neu ysgrifenna restr o'r pethau
rwyd ti'n hoffi eu gwneud





Tynna lun neu ysgrifenna restr
o'r bobl rwyd ti'n eu caru



Mae'r bobl yma i gyd yn dy garu di hefyd ac yma i ti.
Fel allu di siarad gyda nhw a dweud wrthyn nhw sut rwyd
ti'n teimlo nawr neu unrhyw bryd.

